**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA- P/CS/3044/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Medi 2017

Annwyl Lynne

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Awst, yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 20 Gorffennaf. Fel y nodwyd yn eich llythyr, yn ystod y sesiwn cytunais i ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu rhagor o fanylion am nifer o bwyntiau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyflwyno isod.

**Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

O ran proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, gan gynnwys y system sydd ar waith i fonitro'r dull o'i defnyddio ac enghreifftiau o newidiadau i bolisïau a gafwyd o ganlyniad i Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, diben yr Asesiad yw helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried effaith unrhyw gyfraith arfaethedig, polisi neu benderfyniad cyllidebol ar blant a'u hawliau. Mae hynny'n cyd-fynd â'r hyn a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). O ganlyniad, gall swyddogion roi'r holl wybodaeth i Weinidogion Cymru am yr effeithiau hyn. Mae'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn helpu i sicrhau mai buddiannau plant a phobl ifanc yw un o'r ystyriaethau pennaf ym mhob penderfyniad Gweinidogol sy'n effeithio arnynt.

Mae'r broses yn cynnwys cwblhau templed, sy'n ysgogi swyddogion i ystyried cwestiynau allweddol ynghylch dadansoddi effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc, nodi a fydd y cynnig yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant, a sut y bydd yn gwneud hynny.
Mae lefel uchel o ymwybyddiaeth ar draws Llywodraeth Cymru o'r angen i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant pa bryd bynnag y bydd effeithiau posibl ar blant a phobl ifanc.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r tîm Hawliau Plant yn Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall swyddogion gael gafael ar yr adnoddau diweddaraf o ran cyngor, canllawiau, e-ddysgu yng nghyswllt CCUHP, ac enghreifftiau o arferion da ar gyfer ymgymryd â phroses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae eitemau newyddion cysylltiedig rheolaidd ar fewnrwyd Llywodraeth Cymru, cylchlythyrau adrannol staff, ac ymgyrchoedd posteri yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y codir ymwybyddiaeth yn barhaus.

Mae'r tîm Hawliau Plant hefyd yn cynorthwyo staff i fanteisio ar arbenigedd ynghylch hawliau plant y tu allan i Lywodraeth Cymru, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth well o'r broses o gymhwyso a dehongli CCUHP yn eu gwaith.

Mae mewnflwch pwrpasol y mae'n ofynnol i staff anfon pob Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd ato, er mwyn cael cyngor a chanllawiau. Mae pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a geir drwy'r mewnflwch yn cael ei gofrestru ar gronfa ddata ganolog sy'n darparu cofnod o'r Asesiadau a gynhaliwyd.

Mae'r tîm Hawliau Plant hefyd yn monitro rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'r dudalen ymgynghori i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn wedi'u cynnal yng nghyswllt pob darn allweddol o'r gwaith. Os nad oes modd canfod hyn, rhoddir gweithdrefn ddilynol ar waith.

Caiff pob dogfen Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n ymwneud â deddfwriaeth ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r darn perthnasol o waith. O ran penderfyniadau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol, caiff pob teitl Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd ei restru mewn Cylchlythyr chwarterol sydd ar gael ar gais drwy'r mewnflwch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae'r Cylchlythyr yn darparu cofnod cronnus o bob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd. Hyd yma, mae'r Tîm Hawliau Plant wedi cael 24 o geisiadau am gopïau o'r Asesiadau gan randdeiliaid allanol sydd ar ein rhestr ddosbarthu ar gyfer y cylchlythyr.

Cynhaliwyd gwerthusiad o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn 2015 ac mae dogfen dempled Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'i diweddaru'n cael ei threialu ar hyn o bryd.

<u>Newidiadau i bolisïau o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant</u>

Mae ymateb Comisiynydd Plant Cymru i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Bil Teithio Llesol (sy'n Ddeddf erbyn hyn) yn enghraifft o sefyllfa pan fu i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ysgogi pryderon a galluogi trafodaeth a dull cyfranogol o weithio er budd pennaf plant, gan arwain at ddatblygu canllawiau statudol newydd.

Tynnodd sylwadau'r Comisiynydd Plant ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sylw at bryderon am ddiogelwch personol plant a phobl ifanc wrth iddynt gerdded i'r ysgol. Er bod materion diogelwch traffig wedi'u hystyried, roedd angen ystyried ystod ehangach o ffactorau a allai effeithio ar ddiogelwch personol. Ymysg y rhain oedd materion fel yr oedd llwybr wedi'i oleuo'n dda, neu a oedd yn cynnwys mannau wedi'u hynysu neu fannau lle y gwyddys y ceir ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant hŷn neu oedolion. Roedd y Comisiynydd o'r farn nad oedd erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei hystyried i raddau digonol.

Er na chafodd y Bil ei hun ei ddiwygio, aeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd ar drywydd y pwynt hwn, ac o ganlyniad datblygodd ganllawiau statudol newydd ar asesu risg yng nghyswllt llwybrau cerdded i'r ysgol, y mae bellach yn ofynnol i Awdurdodau Lleol eu hystyried.

Roedd y canllawiau dilynol yn cynnwys darpariaeth benodol ynglŷn â diogelwch personol, a oedd wedi'i llywio gan safbwyntiau plant a phobl ifanc, yn ogystal â disgwyliadau ynglŷn â'u cyfranogaeth yn y broses o weithredu'r canllawiau.

**Model Comisiynwyr Statudol**

Yn y Pwyllgor, trafodwyd annibyniaeth gymharol model Comisiynwyr statudol Cymru o gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill (gan ganolbwyntio ar y Comisiynydd Plant yn arbennig). Gan fod fy nghylch gwaith yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, rwyf wedi canolbwyntio isod ar y sefyllfa o ran rôl Comisiynwyr Plant.

Y model yng Nghymru yw bod y Comisiynydd Plant yn cael ei benodi gan y Prif Weinidog ac yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae gan y Comisiynydd statws corfforaeth unigol ac mae'n sefydliad hawliau dynol annibynnol. Mae hynny'n nodwedd sylfaenol ar weithredu cylch gwaith y Comisiynydd. Caiff rhaglen waith y Comisiynydd ei phennu gan y Comisiynydd, gan gydymffurfio â'r rhwymedigaethau deddfwriaethol, ac nid oes dim meysydd yn y cynllun gwaith (gan gynnwys archwiliadau neu adolygiadau statudol) y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth Gweinidogion iddynt.

I bob pwrpas, mae'r model hwn yr un fath â'r model ar gyfer rolau Comisiynydd Plant Lloegr a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon, y maent ill dau hefyd wedi'u noddi gan adrannau llywodraethol.

Mewn cyferbyniad â hynny, caiff Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban ei benodi gan Ei Mawrhydi yn dilyn enwebiad gan y Senedd, a chaiff ei ariannu gan Senedd yr Alban ac mae'n atebol iddi. Mae'r modelau a geir yng Ngwlad Belg a'r Iseldiroedd yn debycach i fodel yr Alban. Yng Ngwlad Belg, mae swyddfa'r Comisiynydd Hawliau Plant yn asiantaeth annibynnol gyhoeddus, sy'n cael ei hariannu gan Senedd Fflandrys ac sy'n cyflwyno adroddiadau iddi'n flynyddol. Yn yr Iseldiroedd, mae swyddogaeth Ombwdsmon Plant wedi'i hymgorffori yn swyddfa'r Ombwdsmon Cenedlaethol, ac o dan ddeddfwriaeth penodwyd Is-ombwdsmon yn Ombwdsmon Plant cyntaf y wlad. Mae'r Ombwdsmon Cenedlaethol a'r Ombwdsmon Plant ill dau'n cyflwyno adroddiadau i Senedd yr Iseldiroedd yn uniongyrchol ac yn annibynnol.

Yng Ngogledd Iwerddon, caiff y Comisiynydd ei benodi gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Bu dau adolygiad o ddeddfwriaeth y Comisiynydd (2006 a 2013), ac argymhellodd y ddau, er mwyn cydymffurfio ag Egwyddorion Paris (yr egwyddorion ynghylch annibyniaeth cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hawliau dynol), y dylai Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon fod yn annibynnol ar lywodraeth a chyflwyno adroddiadau i Gynulliad Gogledd Iwerddon, yn hytrach nag i adran lywodraethol. Nododd yr adroddiadau hyn gyfyngiadau critigol yn y ddeddfwriaeth ynghylch y Comisiynydd sy'n effeithio ar allu'r Comisiynydd i arfer ei phwerau cyfreithiol yn llwyr. Hyd yma, nid yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi rhoi dim o'r argymhellion hyn ar waith neu wedi'i gwneud yn ofynnol cyflwyno newidiadau.

Comisiynodd y cyn-Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi adolygiad annibynnol o'r fframweithiau deddfwriaethol a llywodraethu presennol sy'n ategu Comisiynydd Plant Cymru, a chyflwynwyd ei ganfyddiadau ym mis Rhagfyr 2014. Gwnaeth yr adolygiad 42 o argymhellion, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r broses o benodi ac ariannu'r Comisiynydd Plant i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r model presennol yn diogelu annibyniaeth y Comisiynydd Plant. Er bod y Prif Weinidog yn penodi'r Comisiynydd ac yn ariannu ei swyddfa, mae ganddi statws annibynnol yn gorfforaeth unigol, ac mae'n pennu ei hagenda ei hun.

Ar ben hynny, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac nid y Prif Weinidog neu Lywodraeth Cymru, sy'n ei dwyn i gyfrif. Mae rhannu'r cyfrifoldeb am benodi ac ariannu ar yr un llaw, ac am waith craffu ar y llaw arall, rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn helpu i sicrhau annibyniaeth ac atebolrwydd y Comisiynydd.

**Ardaloedd Arloesi Rhoi Plant yn Gyntaf**

Bu ichi ofyn am yr amserlenni y mae gwaith ardaloedd arloesi Rhoi Plant yn Gyntaf yn eu dilyn. Bydd yr ardaloedd Arloesi yn datblygu amryw o ddulliau gweithredu ar gyfer Rhoi Plant yn Gyntaf dros y 12 mis nesaf. Yn y flwyddyn gyntaf, byddant yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr ardaloedd Arloesi'n ymgysylltu â'u cymunedau er mwyn datblygu cynllun strategol. Bydd pob ardal Arloesi'n datblygu Damcaniaeth Newid, a fydd yn darparu gweledigaeth glir o'i gweithgareddau arfaethedig a sut y mae'r rhain yn ymwneud â'r allbynnau a'r deilliannau tymor byr a thymor hir, yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng pob cyfnod. Bydd data o'r ardaloedd Arloesi'n cael eu casglu yn ystod haf 2018, a byddant yn cael eu defnyddio i werthuso'r gwahanol ddulliau gweithredu a fabwysiadwyd gan yr Arloeswr ac i lywio unrhyw benderfyniad ar gyflwyno'r drefn i gymunedau eraill neu beidio.

**Cyflawni Strategaeth y Gweithlu Gofal Plant**

Cytunais i roi manylion i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau i gyhoeddi cynllun y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar, a'r modd yr wyf yn bwriadu ei weithredu.

Fel y datganais yn y Pwyllgor, hoffwn sicrhau bod y cynllun yn gywir a'i fod yn cyflawni anghenion y sector. Yn fy nhrafodaethau parhaus â'r sector, mae wedi mynegi nifer o bryderon wrthyf ynghylch costau cynyddol darpariaeth gofal plant, yn arbennig effaith yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ac ysgwyddo cynnydd mewn ardrethi busnes a chostau safleoedd. Fel rhan o'r gwaith o roi'r wedd derfynol ar y cynllun gweithredu, mae'n hollbwysig ein bod yn cynorthwyo'r sector i ddatblygu ei gapasiti a'i allu, nid yn unig i gyflwyno'r cynnig gofal plant ond i ategu dyheadau tymor hwy y cynllun gweithlu.

Rwyf wedi trafod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, ac mae ein swyddogion wrthi'n ystyried pa gymorth busnes a sgiliau ychwanegol y gellir ei ddarparu i'r sector wrth fwrw ymlaen â'r gwaith o roi'r wedd derfynol ar y cynllun. Rwyf yn disgwyl y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau'n fuan. Yn y cyfamser, bu i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gyhoeddi £100,000 yn ddiweddar i helpu busnesau gofal plant i gynnig mwy o leoedd. Bydd y cyllid hwn hefyd ar gael yn ardaloedd peilot gweithredwyr cynnar Awdurdodau Lleol er mwyn canfod y dull gorau o gefnogi'r sector yn y dyfodol.

O ran bwrw ymlaen â gweithredu'r cynllun gweithlu, mae'n bwysig nodi bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ers tro mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, wrth gyflawni dyheadau'r cynllun, bydd yn hollbwysig i'r sector fod y gyfres newydd o gymwysterau'n barod i'w haddysgu ym mis Medi 2019. Mae cryn gynnydd wedi'i wneud eisoes er mwyn sicrhau y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Yn ogystal, mae rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant wedi'i datblygu ochr yn ochr â'r cynllun gweithlu, a'i phrif ddiben yw cynyddu lefelau'r cymwysterau gofal plant a chwarae cydnabyddedig y mae'r gweithlu presennol yn eu dal. Disgwylir i'r rhaglen bresennol ddod i ben ym mis Hydref 2018, ac fel ar ddiwedd mis Gorffennaf 2017, roedd 823 o gyfranogwyr yn ei defnyddio.

Mae'n hollbwysig bod polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru yn gyson â'i gilydd er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r sector yn llwyr. Gobeithiaf fod yr hyn yr wyf wedi'i nodi uchod yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â'r cynnydd yn y cyswllt hwn, ac edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r cynllun gweithlu terfynol yn yr hydref.

**Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Plant a Phobl Ifanc**

Bu ichi ofyn hefyd am nodyn ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc er mwyn paratoi ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae dogfen gryno i bobl ifanc, sef "Sicrhau Dyfodol Cymru - Symud o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop" wedi'i llunio a'i chyhoeddi ar wefan ymgyrch Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Papur Gwyn ar Ddiogelu Dyfodol Cymru. Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu'n eang â swyddogion a rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y gweithwyr cyfranogaeth plant ar draws pob Awdurdod Lleol, Plant yng Nghymru, Unicef, ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc.

Rwyf wedi cytuno ar gyllid ar gyfer caffael gwasanaethau sefydliad(au) allanol i ddarparu cyfres o weithdai ledled Cymru er mwyn rhoi llais i blant a phobl ifanc a sicrhau bod eu safbwyntiau ynglŷn â'r Undeb Ewropeaidd yn cael eu hystyried, ac i ddatblygu ymgynghoriad ar-lein a fydd yn cychwyn yn y flwyddyn ariannol hon.
Rwyf hefyd wedi cytuno ar sefydlu grŵp cynghori o bobl ifanc a fydd yn sicrhau bod y safbwyntiau a gasglwyd drwy'r gweithdai a'r ymgynghoriad yn cael eu trosglwyddo i'r Grŵp Cynghori ar Ewrop, a bod Llywodraeth Cymru yn eu hystyried o ddifrif.
Byddai unrhyw gynrychiolwyr neu weithgor i bobl ifanc yn cyfrannu at Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Ewrop. Mae fy swyddogion yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar hyn o bryd. Byddaf yn darparu rhagor o fanylion maes o law.

**Gwerthusiadau o Dechrau'n Deg a Chynlluniau Tebyg sy'n seiliedig ar Godau Post**

Cyhoeddwyd Gwerthusiad o Effaith Dechrau'n Deg yn 2013: http://gov.wales/docs/caecd/research/131205-national-evaluation-flying-start-impact-report-en.pdf [Saesneg yn unig]. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ganfyddiadau ail gam arolwg hydredol o 2,116 o deuluoedd â phlant rhwng dwy a phedair oed sy'n byw mewn ardaloedd cyflawni Dechrau'n Deg ac ardaloedd cymharu nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg. Er mwyn amcangyfrif effaith y rhaglen, cafodd ymatebwyr mewn ardaloedd Dechrau'n Deg eu paru ag ymatebwyr yn y grŵp cymharu o safbwynt amryw o ffactorau, fel oedran, maint y teulu, addysg, mathau o dai, statws unig riant, a newidion cymdeithasol-economaidd eraill. Er bod y dull hwn yn egluro nifer o wahaniaethau a arsylwyd rhwng y ddau grŵp, ni all oresgyn pob gwahaniaeth gwaelodol. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad ei bod yn bosibl bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau rhieni a phlant. Mae'r casgliad hwn wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth bod teuluoedd sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cychwyn o sylfaen is na'r rhai yn y grŵp cymharu cyn i'r rhaglen gael ei chyflwyno. Mae peth tystiolaeth na allai'r broses baru addasu'n llwyr ar gyfer pob gwahaniaeth gwaelodol. O ganlyniad, mae'r diffyg gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn awgrymu y gall Dechrau'n Deg fod wedi creu gwelliannau, a deilliannau teuluoedd ar yr un lefel erbyn hyn â'u teuluoedd cyfatebol llai difreintiedig.

Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Chwefror 2017 sy'n cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad o ddeilliannau addysgol plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, gan ddefnyddio setiau data sy'n bodoli eisoes: http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170208-flying-start-educational-outcomes-cy.pdf. Canfu'r dadansoddiad fod cyfraddau presenoldeb plant a allai fod yn gymwys i gael o leiaf ddwy flynedd o gymorth Dechrau'n Deg yn uwch na'r rhai a oedd yn byw yn yr un ardal cyn cyflwyno Dechrau'n Deg. Canfuwyd hefyd fod eu presenoldeb wedi gwella'n gyflymach nag yn achos plant a oedd yn byw mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o raglen Dechrau'n Deg.

Rydym wrthi'n treialu dull o gasglu data ar lefel unigolion ynglŷn ag ymgysylltu a deilliannau o ran plant sy'n rhan o raglen Dechrau'n Deg.

Disgwylir i hynny arwain at ddadansoddiad mwy cadarn o'r deilliannau i blant sy'n rhan o raglen Dechrau'n Deg o'u cymharu â'r rhai i blant tebyg nad ydynt yn rhan o'r rhaglen, gan gynnwys plant cymwys nad ydynt yn cael gwasanaethau y mae hawl iddynt a phlant sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn gymwys.

Yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn, mae rhestr o astudiaethau perthnasol eraill a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Materion eraill**

Yn eich llythyr hefyd mynegwyd nifer o bwyntiau yr oedd y Pwyllgor am gael rhagor o wybodaeth amdanynt. Mae'r ymatebion i'r pwyntiau hynny wedi'u nodi isod.

Eiriolaeth

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am eiriolaeth maes o law.

Tlodi Plant

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw cofnodi lles plant a phobl ifanc o'u safbwynt nhw a sicrhau bod hynny'n llywio'r broses o ddatblygu a gwerthuso polisïau.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi ac yn defnyddio arolwg Ymddygiadau Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC), sy'n peri bod modd dadansoddi tueddiadau allweddol mewn deilliannau iechyd, ymddygiadau, a'r cyd-destun cymdeithasol ar lefel genedlaethol. Defnyddir hwn i gyflwyno adroddiadau ar y dangosyddion llesiant cenedlaethol i Gymru sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – dangosydd 5, canran y plant sydd â llai na dwy ffordd iach o fyw (sef dangosydd cyfansawdd sy'n defnyddio data ynghylch statws ysmygu, yfed alcohol, gweithgarwch corfforol a'r ffrwythau/llysiau sy'n cael eu bwyta).

Yn ogystal, yn ddiweddar bu inni ddarparu cyllid ychwanegol, a gymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau, i gryfhau arolwg HBSC i gynnwys data ynghylch llesiant plant a hawliau plant yng Nghymru. Bydd y data o'r gwaith ymchwil ychwanegol hwn yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r Dangosyddion Cenedlaethol, ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol fel rhan o'r gyfres o ddangosyddion.

Mae astudiaeth HBSC yn cynnig llwyfan ar gyfer casglu a dadansoddi'r data hyn yng nghyswllt pobl ifanc o oedran ysgol uwchradd yn y lle cyntaf. Gweinyddir yr astudiaeth drwy'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, a gynhelir ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r cyllid ychwanegol yn ategu'r gwaith o ddatblygu, profi, casglu, dadansoddi, a lledaenu data ar lesiant goddrychol. Darperir hyn drwy amrywiad i grant presennol i'r Rhwydwaith drwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (a ariennir gan yr Is-adran Ymchwil a Datblygu yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol).

Bydd y gwaith maes ar gyfer arolwg HBSC, ynghyd â chwestiynau ychwanegol am lesiant goddrychol, yn cael eu gweithredu yn ystod hydref/gaeaf 2017/18, a chyflwynir adroddiad yn y gwanwyn yn 2018.

Y tu hwnt i'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgymryd â gwaith ymchwil ansoddol a meintiol rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc fel rhan o waith ar arolygon eraill ac astudiaethau sy'n ymwneud â pholisïau penodol. Ymysg yr enghreifftiau o'r gwaith hwn mae:

- y Gwerthusiad o’r Cyfnod Sylfaen;
- Hwb Cymru i Arolwg Carfan y Mileniwm;
- Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru

Cyhoeddir pob un o’r astudiaethau hyn ar dudalennau gwe Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy

*Gwybodaeth gefndir bellach am astudiaeth Ymddygiadau Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol a’r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion*

Prif amcanion yr astudiaeth o Ymddygiadau Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol yw:

- darparu dealltwriaeth fanwl o iechyd a llesiant pobl ifanc, gan gynnwys penderfynyddion cymdeithasol iechyd;
- cyfrannu at bolisïau ac arferion i wella bywydau pobl ifanc;
- lledaenu canfyddiadau i grwpiau amrywiol, er enghraifft y rhai sy’n llunio polisïau yn Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG, athrawon, rhieni, pobl ifanc ac ymchwilwyr; a
- chychwyn a chynnal gwaith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol ar ymddygiadau iechyd a chyd-destun cymdeithasol iechyd ymysg pobl ifanc.

Mae’r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn rhychwantu mwy na 50% o’r ysgolion uwchradd yng Nghymru, a dyma’r rhwydwaith mwyaf o’i fath yn y byd, ac yntau’n cynnwys oddeutu 39,000 o ddisgyblion. Mae’r rhwydwaith yn gwneud cryn gynnydd tuag at gyflawni 100% yn ystod 2017/18, ac mae ganddo gynlluniau i ymestyn y gwaith i ysgolion cynradd. Mae’r Rhwydwaith yn darparu seilwaith cryf ar gyfer adeiladu’r gronfa dystiolaeth ynghylch llesiant. Mae pob ysgol yn y rhwydwaith yn cwblhau Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr electronig dwyieithog bob dwy flynedd. Mae’r arolwg wedi’i seilio ar Arolwg Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, fel y gellir cyfuno’r ddau arolwg bob pedair blynedd, ac mae Holiadur ynghylch Amgylchedd Ysgolion yn cyd-fynd ag ef, sy’n peri bod modd ymchwilio i berthnasoedd rhwng polisïau ac arferion ysgolion ac iechyd myfyrwyr. Mae’r arolygon yn darparu seilwaith hyblyg ac ymatebol ar gyfer casglu data ar arferion ysgolion a materion sy’n dod i’r amlwg ac sy’n berthnasol i bolisïau, ac maent yn darparu seilwaith cost-effeithiol i gynnal arolygon o ysgolion, astudiaethau ymchwil ac arbrofion naturiol ar bolisïau newydd. Mae defnyddio rhwydwaith sy’n bodoli eisoes yn gwella effeithlonrwydd y gwaith ac mae’n lleihau’r baich ar ysgolion, gan greu’r fantais ychwanegol o ddwyn ynghyd gyllid iechyd ac addysg i ategu llesiant plant ar draws portffolios.

Cynnig Gofal Plant

Rwyf yn croesawu diddordeb parhaus y Pwyllgor yn y broses o ddatblygu cynnig Gofal Plant a’i effaith ar bolisïau cysylltiedig, a byddaf yn parhau i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r aelodau ar gynnydd yn y cyswllt hwn.

Hawliau Plant

Roedd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn garreg filltir ac mae ymrwymiad y Llywodraeth hon i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn gwbl gadarn o hyd. Fel y mae fy nhystiolaeth ar broses yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yn ei ddangos, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i osod hawliau plant wrth galon ein gwaith o lunio polisïau a phenderfyniadau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn darparu fframwaith llywodraethu cryfach er mwyn i gyrff cyhoeddus wella'u dull o wasanaethu buddiannau plant a phobl ifanc. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer ffordd well o wneud penderfyniadau drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn edrych tua'r tymor hir; yn helpu i atal problemau neu eu hatal rhag gwaethygu; yn mabwysiadu dull gweithredu integredig a chydweithredol; ac yn cynnwys pobl o bob oedran – gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y Comisiynydd Plant i amlinellu ein safbwynt o ran y ddyletswydd i roi sylw dyledus, ac nid yw ein safbwynt wedi newid. Nid ydym yn cytuno bod angen gosod dyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Fel sy'n ofynnol o dan Fesur 2011, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hawliau plant ac yn sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o ddatblygu deddfwriaeth. Drwy gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, bydd darparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr yn rhoi effaith i'r hawliau a ddisgrifir yn y Confensiwn.
Ni fyddai dyletswydd gyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau i roi sylw dyledus yn arwain ynddi'i hun at ddeilliannau gwell i blant a phobl ifanc. Ni fyddai'n gwarantu cam gweithredu neu ganlyniad penodol ac nid oes dim tystiolaeth y byddai'n cael effaith gadarnhaol o ran deilliannau gwell.

Pe baem yn gosod dyletswydd i roi sylw dyledus yn uniongyrchol ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau statudol, mae perygl y byddwn yn tynnu sylw ymarferwyr rheng flaen oddi wrth eu gwaith drwy greu haenau o fiwrocratiaeth – gan olygu bod rhaid i weithwyr proffesiynol ddangos tystiolaeth eu bod wedi ystyried y confensiwn yn eu rhyngweithiadau â phob plentyn a pherson ifanc.

Byddai'r ddyletswydd yn creu perygl y gallai sefydliadau sydd â swyddogaethau o dan Ddeddf wynebu ymgyfreitha oherwydd methiannau gweithdrefnol. Mae eu diogelu eu hunain rhag risgiau o'r fath yn creu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth, a gall ofyn am amser ac adnoddau y gellid bod wedi'u defnyddio fel arall i gynorthwyo plant a phobl ifanc a gwella deilliannau.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

**Atodiad 1**

## Gwerthusiadau o Dechrau'n Deg a Chynlluniau Tebyg sy'n seiliedig ar Godau Post

Mae'r rhestr a ganlyn yn cynnwys astudiaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u comisiynu, y cyhoeddir pob un ohonynt ar dudalennau gwe Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru, yn unol â'n Hegwyddorion ar gyfer Gwaith Ymchwil a Gwerthuso:

http://gov.wales/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy

Dylid nodi bod cymharu deilliannau ar gyfer y plant hynny sy'n defnyddio cynlluniau neu y mae'r cynlluniau hynny'n effeithio arnynt, a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio neu nas effeithir arnynt, yn ymwneud â chryfder y dadansoddiad sy'n bosibl o ystyried argaeledd ac ymarferoldeb y data. Er enghraifft, gellid honni y byddai methodoleg hapdreialon a reolir yn darparu tystiolaeth gryfach o effaith, tra bo gan ddulliau mesur neu gymariaethau 'cyn ac ar ôl' o ddeilliannau rhwng ardaloedd wendidau sy'n cyfyngu ar y broses o ddadansoddi achosiaeth rhwng ymyriadau a deilliannau. Er hynny, mae'r gwaith ymchwil ynghylch Dechrau'n Deg a restrir isod wedi defnyddio'r dulliau gorau sydd ar gael ac sy'n ymarferol er mwyn deall cyfraniad Dechrau'n Deg, a rhaglenni eraill sydd wedi'u seilio ar ardaloedd, at ddeilliannau plant. At ddibenion cymharu, bu i'r gwerthusiad o raglen Brecwast am Ddim Llywodraeth Cymru ddefnyddio proses o ystyried clystyrau ysgolion ar hap er mwyn dangos effaith y rhaglen ar y plant a fu'n cymryd rhan ynddi o'u cymharu â'r rhai na wnaethant gymryd rhan.
Isod ceir rhestr o werthusiadau o'r rhaglenni mwyaf perthnasol (hynny yw, y rhai a dargedir at blant yn ôl dull sy'n seiliedig ar ardaloedd). Mae'n eithrio astudiaethau eraill o ymyriadau ar sail ardaloedd (e.e. rhaglenni Ewropeaidd fel Leader) nad ydynt wedi'u hanelu'n uniongyrchol at blant ond a all gael effaith anuniongyrchol.

### Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â rhaglen o waith ymchwil ynghylch Dechrau'n Deg, sydd wedi arwain at gyfres o adroddiadau. Cafwyd y cyntaf yn 2010, a chyhoeddwyd y dadansoddiad diweddaraf o ddeilliannau addysgol ym mis Chwefror 2017. Mae'r holl adroddiadau ar gael yn:

http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?skip=1&lang=cy

- Gwerthusiad o Dechrau'n Deg: Deilliannau addysgol
- Ymchwil ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 2
- Ymchwil ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 1
- Dechrau'n Deg: Adroddiad synthesis
- *National evaluation of Flying Start: Impact report* [Saesneg yn unig]
- *National evaluation of Flying Start: Area case study synthesis report* [Saesneg yn unig]
- *Flying Start: Qualitative research with high need families – interim report* [Saesneg yn unig]
- *Evaluation of Flying Start: Findings from the baseline survey of families* [Saesneg yn unig]
- Gwerthusiad Interim o Dechrau'n Deg

### Cymunedau yn Gyntaf

Bu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn gweithredu ers 2001 ac mae cyfres o werthusiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i ganfod newidiadau a fyddai'n diwygio'r rhaglen ac yn ei gwella. Mae'r astudiaeth ddiweddaraf ar gael yma:

http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-communities-first/?skip=1&lang=cy

Mae astudiaethau blaenorol o Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys dadansoddiad o ddeilliannau addysgol i blant, ar gael yma:

http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-communities-first/?tab=previous&skip=1&lang=cy

**Brecwast am Ddim**

Mae gwerthusiad Llywodraeth Cymru ei hun ac astudiaethau academaidd eraill wedi darparu ffynhonnell gyfoethog o dystiolaeth ynghylch effaith wahaniaethol brecwast am ddim ar ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn y fenter:

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140418210633/http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/breakfast/evaluation/?skip=1&lang=cy

Astudiaeth ddilynol Prifysgol Caerdydd o effaith brecwast am ddim ar gyrhaeddiad:

http://www.cardiff.ac.uk/cy/news/view/162112-good-breakfast,-good-grades

**Gwerthusiad o'r Strategaeth Tlodi Plant**

Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr astudiaeth hon yn 2012, ac mae'n cynnwys meta-adolygiad o effeithiolrwydd ac effaith sampl o raglenni allweddol Llywodraeth Cymru, y mae ei nodau'n berthnasol i dri amcan creiddiol y Strategaeth Tlodi Plant. Mae'r adroddiad terfynol ar gael yma:

http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140709-child-poverty-strategy-wales-final-cy.pdf